www.xtrapapers.com

CBAC
WJEC

# TGAU CYNLLUNIAU MARCIO

**CYMRAEG AIL IAITH**
**(MANYLEB NEWYDD)**

**HAF 2011**

www.xtrapapers.com

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2011 TGAU CYMRAEG AIL IAITH (MANYLEB NEWYDD). Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

www.xtrapapers.com

## CYMRAEG AIL IAITH – UNED 1

**C.1** **(i)** Ticiwch 3 peth addas o'r lluniau isod i roi ar boster yn eich ardal chi i hysbysebu'r diwrnod.

codi pwysau, chwarae pêl-droed pump bob ochr a chwarae tenis bwrdd.
**Dewis naill lun tenis neu'r llall.**

**(ii)** Darllen llythyr Siân a Tom. **[9]**

Diwrnod o hwyl – ble – **Saithbryn / canolfan hamdden** [½]

– dyddiad – **Gorffennaf 1af [1] dydd Sul [0]**

– amser dechrau – **naw [1]**

– amser gorffen – **wyth [1]**

– Pris i blant dan 10 oed – **£1** [½]

– Pris 11 – 16 – **£2** [½]

– Pris oedolion – **£5** [½]

– Bwyd – **brechdanau / sglodion [1]**

Codi arian i helpu. Pwy? **Debbie (Green) – [1]**

Pam? **Mynd i'r ysbyty yn America [1]**
**Helpu codi'r 20,000 / rhaid codi 20,000 [1]**
**Codi 20,000** [½]
**Mynd i'r ysbyty** [½]
**Mynd i America** [½]

**3 marc iaith.**

1 – 3 ateb cywir – hyd at 1 marc
4 – 6 ateb cywir – hyd at 2 farc
7 – 9 ateb cywir – hyd at 3 marc

www.xtrapapers.com

**C.2** Mae eich dosbarth cymraeg yn gwneud blog newydd. Llenwch y rhannau isod gyda gwybodaeth bersonol **yn Gymraeg.** **[10]**

**Cynnwys –**

**5 marc**

Dyma fi (3 ffaith) – ½marc am bob ffaith **[1½]**

Mynd i'r sinema a hoff ffilmiau (2 ffaith) – ½ marc am bob ffaith **[1]**

Canu pop (3 ffaith)
Fy hoff grŵp / ganwr. **[½]**
Canwr / grŵp dw i ddim yn hoffi. **[½]**
Rheswm. **[½]**

Siopau dw i'n hoffi / ddim yn hoffi. **[½]**
Pam? **[½]**

**Cywirdeb iaith** hyd at **5 marc**

1 marc am bob brawddeg gywir – rhaid cael patrymau gwahanol e.e.

.... ydw i
Rydw i’n ....
Dydw i ddim ....
Fy hoff ....
Achos mae’n ......
Yn fy marn i mae ....
Mae’n well gen i/ gyda fi .....

www.xtrapapers.com

**C.3 (Sylfaenol)**

**(a)** Llenwch y proffil am Alex Jones **yn Gymraeg**. **24 marc**

Geni a magu **– Rhydaman / sir Gaerfyrddin [2]**

Enw ei chwaer **– Jennie [1]**

Dysgu siarad Cymraeg. Ble? **(Yn yr) ysgol / ysgol gynradd / ysgol uwchradd / Maes yr Yrfa [3]**

Dawnsio ballet yn dda. Pam? **Helpu chi [1] Helpu chi berfformio [2] Helpu chi berfformio ar y llwyfan [3]**

Astudio beth yn Aberystwyth **(i) Theatr [2] (ii) Ffilm [2] (iii) Teledu [2]**

Gwneud ei harholiadau gradd. Ble? **Magaluf [1]**

Yn hoffi gweithio ar y rhaglen *Tocyn*. Pam? Unrhyw 2 am 3 marc yr un
**(i) hoffi teithio / wrth fy modd yn teithio [3] (ii) gweld y byd [3] (iii) gweithio gydag Aled Sam [3]**

Yn mwynhau rhaglen *Jonathan* yn fawr. Pam? **Llawer iawn o hwyl / llawer o chwaraewyr rygbi (enwog ar y rhaglen) / cyfarfod Jamie Roberts / Jamie Roberts yn bishyn / achos mae'n fendigedig [2]**

**(b)** Ysgrifennwch dair brawddeg **yn Gymraeg** yn y 3ydd person yn rhoi 3 ffaith am beth mae Alex yn ddweud yn y cyfweliad am *The One Show.*

**6 marc iaith 2 x 3 = 6 marc**
**Rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir cyn gellir dyfarnu marciau o gwbl.**
**3 marc am bob brawddeg**

**Gwobrwyir**

**(i)** **Cystrawen frawddegol gywir yn y 3ydd person – [3]**

**(ii)** **Ymdrech deg i gyfathrebu'n gywir yn y 3ydd person – [2]**

**Ffeithiau perthnasol.**

(i) dod ymlaen yn dda gyda Matt
(ii) (ddau yn) hoffi drama gerdd/pizza express
(iii) golygydd One Show wedi ei gweld ar You Tube
(iv) rhai pobl yn dweud ei bod yn debyg i Christine Bleakley
(v) yn nerfus ar y dechrau / llai nerfus nawr
(vi) dal i ddysgu pethau newydd bob dydd
(vii) bywyd yn ddiddorol iawn
(viii) mwynhau yn fawr

www.xtrapapers.com

**C.4 (Sylfaenol)**
**C.2 (Uwch)**

Rydych chi ar wyliau gwersylla yng Ngogledd Cymru. Ar y ffordd gartref rydych chi'n edrych ar y lluniau rydych chi wedi dynnu. Anfonwch lythyr at eich rhieni yn dweud beth ydych chi wedi mwynhau a ddim wedi mwynhau ar y gwyliau.

**Cynnwys**

Dylid cyfeirio at y gofynion:

| | |
|---|---|
| 10 - 9 | Yn gallu ymdrin yn llwyddiannus â'r gofynion a'r sgiliau. Cyfathrebu ystyrlon a'r llythyr yn datblygu'n naturiol. Yn eitha uchelgeisiol. |
| 8 - 7 | Yn gallu ymateb i'r gweithgaredd yn weddol gyflawn ond rhai rhannau ddim cystal. Llythyr synhwyrol a datblygiad naturiol. Ddim mor uchelgeisiol ag uchod. |
| 6 - 5 | Canolig – yn llwyddo i gyfathrebu ac i ysgrifennu ymatebion eitha diddorol ac eitha cynhwysfawr. Cadw at y disgwyliadwy ac yn tueddu i fod yn aflwyddiannus gyda'r adrannau anoddaf. |
| 4 - 3 | Is na'r canolig. Yn llwyddo i ymateb i rai o'r pwyntiau'n unig. |
| 2 - 1 | Y dasg yn ormod iddynt ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

**Mynegiant** **10 marc**

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon;
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm;
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol;
(ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol;
(d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon llwyddiannus;
(dd) bydd y rwbric yn rhoi peth cymorth i'r ymgeisydd a gwobrwyir y gallu i'w ddefnyddio'n ystyrlon.

| | |
|---|---|
| 10 – 9 | cyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf, ymatebion cywir ar y cyfan. |
| 8 – 7 | ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eitha da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith. |
| 6 – 5 | Canolig – yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Ddim yn uchelgeisiol ond yn cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau. |
| 4 – 3 | Is na'r canolig ond yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau. |
| 2 - 1 | Y dasg yn ormod iddynt. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

www.xtrapapers.com

**C.3** (**Uwch) [30]** **½ marc am ddweud hoffi / ddim yn hoffi**
**3 marc am y rheswm**

**(i)**
**Tim**

| **Pynciau** | **Hoffi / Ddim yn hoffi** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Dilyn y ffasiwn | **Hoffi** | **Grêt edrych ar y ffasiwn (diweddaraf) / hoffi edrych ar ffasiwn (yn y siopau mawr) / cael cyfle i drio'r dillad / hoffi cael barn (Eluned) am ffasiwn** |
| Eisteddfod yr ysgol | **Hoffi** | **Rhoi cyfle i bawb gymryd rhan / helpu datblygu talentau newydd / llawer o bobl ifanc wedi dechrau canu yn Eisteddfod yr ysgol**<br>**Beth da i bobl ifanc [0]** |
| Gwaith elusennol | **Hoffi** | **Beth da i bobl ifanc helpu pobl llai ffodus (na nhw) / Oxfam yn helpu codi arian i gynnal ysgol yn Zambia** |

**Sue**

| **Pynciau** | **Hoffi / Ddim yn hoffi** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Dilyn y ffasiwn | **Ddim yn hoffi** | **Llawer rhy ddrud / siopau mawr yn gwneud arian (allan o ffasiwn) / dim rhaid dilyn y ffasiwn i edrych yn dda / rhai pethau sy yn y ffasiwn yn edrych yn ofnadwy** |
| Eisteddfod yr ysgol | **Ddim yn hoffi** | **Plant yn canu neu llefaru yr un peth o hyd ac o hyd / eisiau newid i fod yn fwy tebyg i'r *X Factor*** |
| Gwaith elusennol | **Ddim yn hoffi** | **Llawer o'r arian ddim yn cyrraedd y bobl sy ei angen / arian yn mynd i boced y bobl sy'n gweithio i'r elusen / cyflogau cyfarwyddwyr yn rhy uchel** |

**(ii)** Nawr ysgrifennwch eich barn chi yn Gymraeg isod **Cynnwys – 3 marc**
**Mynegiant - 6 marc**

Gwaith elusennol – gyda pwy ydych chi'n cytuno. Pam?
Dilyn y ffasiwn – gyda pwy ydych chi'n cytuno. Pam?
Eisteddfod yr ysgol – gyda pwy ydych chi'n cytuno. Pam?
**Ymateb i un – [1½]**
**Ymateb i ddau – [1½]**

**Mynegiant -** 2 farc am bob brawddeg gywir – hyd at 6 marc

www.xtrapapers.com

**C.4 (Uwch)**

Ysgrifennwch ar un o'r canlynol (tua 150 o eiriau) **[20]**

(i) Fy Nhymru i – pethau da phethau drwg.

(ii) Mae chwaraeon a chwaraewyr yn cael llawer iawn gormod o sylw ar y cyfryngau.

(iii) Achlysur arbennig yn yr ysgol neu yn y gymuned.

**Cynnwys** **10 marc**

**Gwobrwyir:**

(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) barn bendant a synhwyrol
(c) dilyniant rhesymegol
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

| | |
|---|---|
| 10 – 9 | Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant iawn gyda syniadau uchelgeisiol ac aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a phethnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn. |
| 8 – 7 | Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gyda rhai syniadau uchelgeisiol a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus. |
| 6 | Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i fynegi barn yn eithaf clir gyda rhai syniadau da a chynllun eithaf da i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd. |
| 5 | Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r farn a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol. |
| 4 | Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel sylfaenol yn unig. Ar y cyfan yn gwneud peth ymdrech i fynegi barn yn syml. |
| 3 - 2 | Diffyg syniadau a barn ar y cyfan ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw. |
| 1 | Ymdrech i ymdrin â'r dasg ar lefel arwynebol iawn yn unig. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

www.xtrapapers.com

**Mynegiant** **10 marc**

Gwobrwyir

(a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b ac efallai elfen o hiwmor
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ymglŷn â barn a syniadau

| | |
|---|---|
| 10 – 9 | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. |
| 8 – 7 | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Elfen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 6 | Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 5 | Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol ond yn ein hargyhoeddi y gallant ymdopi â'r dasg yn weddol lwyddiannus. |
| 4 | Yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau ac yn cael anhawster i fynegi barn. |
| 3 | Yn cael trafferth i ddefnyddio patrymau brawddegol yn gywir. Geirfa weddol gyfyng a defnydd anghywir o ffurfiau berfol ar brydiau. |
| 2 - 1 | Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

www.xtrapapers.com

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk